## Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

# Adroddiad Blynyddol 2025-26 Corff Llywodraethol



| | |
|---|---|
| **Pennaeth Gweithredol :** | **Matthew H T Evans** |
| **Pennaeth Ysgol:** | **Denis E Pugh** |
| **Cadeirydd y Llywodraethwyr:** | **Hywel Jones** |
| **Is - gadeirydd:** | **Sian Edwards-Poole** |

*Gorau Golud, Addysg Dda*

**Llythyr gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol**

Annwyl Rhiant / Gwarchodwr,

Braint yw ysgrifennu atoch eleni ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol 2025-26, yn dilyn blwyddyn lwyddiannus a phrysur yn ein hysgol.

Rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ran y Corff Llywodraethol, sy'n cynnwys y gweithgareddau a'r profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n dyst i weledigaeth ac ymrwymiad y tîm cyfan o staff ym Mro Edern. Fel Corff Llywodraethol, rydym wedi cael ein calonogi gan y cyfleoedd a'r profiadau a gynigir dros y deuddeg mis diwethaf a diolch i holl aelodau'r gymuned ysgol am eu brwdfrydedd a'u hegni. Roedd gymaint o weithgareddau fel y Gyngerdd Nadolig, Sioe Gerdd "Billy Elliott", perfformiadau yn Eisteddfod yr Urdd a'r holl dwrnamentau a gweithgareddau Chwaraeon yn achlysuron hyfryd lle rydym wedi teimlo'n falch iawn o dalentau amrywiol ein pobl ifanc. Yn ogystal, mae'r holl weithgareddau mewn adrannau eraill, yn gystadlaethau, ymweliadau, gweithdai, cyfweliadau gydag arbenigwyr yn drysor o gyfleoedd sydd i gyd yn datblygu profiadau a medrau ein plant a'n pobl ifanc. Hoffwn hefyd longyfarch myfyrwyr hefyd ar ganlyniadau TGAU a Safon Uwch eleni. Mewn cyfnod ansicr, pan fydd ein bwletinau newyddion yn llawn straeon negyddol, rydym yn llongyfarch ein myfyrwyr am gyflawni cymaint dros y deuddeg mis diwethaf ac am ddangos i bawb, y gall gwaith tîm a brwdfrydedd, sicrhau llwyddiant. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd a *diolch am eich gwaith*!

Wrth gwrs, ni fyddai hyn yn bosibl heb ymroddiad, cefnogaeth ac arweiniad holl staff Bro Edern sydd wedi gweithio yn galed i roi o'u gorau i'n plant. Rydym yn eu canmol unwaith eto am eu gwaith ac yn dymuno seibiant haeddiannol iddynt yr haf hwn.

Rydym wedi croesawu aelodau newydd o staff i'r ysgol ym mis Medi. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant hefyd i'r wynebau cyfarwydd sydd wedi cyfrannu at gynhesrwydd a chymeriad Bro Edern, ac sydd wedi penderfynu ymddeol neu wedi cael dyrchafiad i swyddi newydd ar ddiwedd tymor yr haf.

Fel Corff Llywodraethol, rydym hefyd yn cael ein calonogi gan y gwaith eleni mewn ymateb i argymhellion Estyn. Mae wedi bod yn braf ymuno mewn cyfarfodydd adborth yn dangos y camau da sydd wedi eu gwneud i sicerhau cynydd a gwelliant ar draws yr ysgol. Rydym hefyd yn cael ein hysbrydoli i weld newidiadau o fewn ein darpariaeth cwricwlwm, i sicrhau bod disgyblion yn cael mwy o berchnogaeth ar eu cwricwlwm, a bod ein cwricwlwm lles yn adlewyrchu'r materion sy'n wynebu ein pobl ifanc. Roedd ein hymweliadau yn Nhymor yr Hydref, yn gyfle i ni drafod cynnydd disgyblion gydag athrawon a rhoddodd gipolwg gwerthfawr ar y gweithgareddau dysgu sydd ar gael ar draws y cwricwlwm. Pleser arbennig oedd mwynhau sgyrsiau gyda disgyblion Bro Edern wrth i ni wneud ein ffordd o amgylch yr ysgol, ac maen nhw i'w canmol am eu hegni, eu brwdfrydedd a'u gonestrwydd wrth drafod eu gwaith a'u cymuned yn yr ysgol.

Rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau'r Corff Llywodraethol, i Mr Evans a Mr Pugh a'r tîm arwain am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda chi i gyd yn y blynyddoedd i ddod.

Yn ddidwyll,

Mr Hywel Jones
Cadeirydd y Corff Llywodraethol



*Grwp llefaru, Eisteddfod yr Urdd, Ynys Mon*

*Llun clawr: Taith gyfnewid Bl 9 i Ffrainc, Mont-Saint-Michel, Mehefin 2026*

**Adroddiad diwedd blwyddyn gan y Pennaeth Gweithredol, Matthew H T Evans.**

Mae'n bleser cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i gymuned Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern. Rwy'n teimlo'n falch iawn o'r gwaith rydym wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn diolch yn gynnes am y croeso rwyf wedi ei dderbyn i gymuned arbennig Bro Edern.


*Mr D Pugh, Mr M Evans a Miss C James*

Ar ddiwedd 2025/26 hoffwn ddechrau drwy dalu teyrnged i waith cyn-bennaeth yr ysgol Mr Iwan Pritchard am ei waith yn sefydlu'r ysgol ers Medi 2012. Roedd yn braf cyd-weithio gydag ef drwy dymor yr Haf 2025 ac wrth iddo benderfynnu ymddeol yn gynnar o addysg. Ar ran holl gymuned yr ysgol, diolch iddo am ei gyfraniad nodedig ac am arwain yr ysgol drwy'r cyfnod cynnar yn ei hanes ac wrth arwain pennod newydd yn hanes datblygiad addysg Gymraeg o fewn y sir.

Yn Medi 2026, roedd yn braf dechrau ein gwaith cydweithredol fel ysgol gydag Ysgol Glantaf er mwyn ymateb yn gadarnhaol i argymhellion Estyn. Roedd hyn yn golygu partneriaeth gydweithredol gyda Glantaf, wrth i mi gamu i rol Pennaeth Gweithredol dros y ddwy ysgol ac i Mr Denis Pugh gamu i rol newydd fel Pennaeth Ysgol. Rydym wedi ein cefnogi yn ein gwaith, gan Miss Ceri Anwen James, fel Dirprwy Bennaeth. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweithio'n hynod glos, i ddod i adnabod cymuned yr ysgol yn well ac i addasu a gwella ein darpariaeth i blant a phobl ifanc yr ysgol. Rydym wedi mwynhau cwrdd a chysylltu gyda chi ac i wrando ar farnau ynglyn a thaith gwella yr ysgol. Wrth lunio'r adroddiad hwn, mae holl waith cydweithredol y flwyddyn yn glir dros ben a hoffwn ddiolch am bob arwydd o gefnogaeth i'n gwaith ac am eich ymrwymiad i sicrhau bod yr ysgol yn parhau ar ei thaith gwelliant.

Eleni collwyd aelod annwyl iawn o staff Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, Mrs Gwenllian Rhys Roberts yn dilyn cyfnod o salwch creulon. Roedd Mrs Roberts yn aelod egnïol, proffesiynol a llawn creadigrwydd ymysg cymuned Bro Edern. Ymunodd â ni fel Anogwr Dysgu i aelodau o'r Chweched Dosbarth yn Medi 2017, gan sefydlu ei hun yn gadarn fel aelod o'r tîm cynnal dysgu. O'r cyfnod cyntaf hwnnw roedd ei gofal, ei hadnabyddiaeth o blant a'i gwaith cefnogi o safon arbennig. Roedd yn magu perthnasoedd cadarnhaol a charedig gyda disgyblion, gan eu cefnogi drwy daith ddysgu a threialon bywyd Chweched yn ofalgar a llawen. Gyda hiraeth dwys, estynnwn ein cydymdeimlad mwyaf cywir a'i theulu, gan nodi ein diolchgarwch didwyll am gael adnabod a chydweithio gyda chymeriad mor annwyl, hapus a charedig.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau staff hynny sydd wedi'u penodi i swyddi eraill neu sydd wedi dewis ymddeol yn ystod y flwyddyn neu ar ddiwedd tymor yr haf. Yn syml ac yn ddiffuant, dymunwn bob hapusrwydd iddynt ar gyfer y dyfodol a diolch yn garedig iddynt am eu gwaith ym Mro Edern.

**Perfformiad ysgol yn Haf 2025: TGAU a Cyrsiau Galwedigaethol Lefel 2**

Roedd canlyniadau TGAU / Galwedigaethol yn haf 2025 yn galonogol iawn, gydag sgoriau perfformiad yr ysgol yn dangos cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf ac yn cymharu'n dda gydag ysgolion tebyg. Roedd yn braf gweld cynnydd da yn ein Sgor Cap 9 sy'n dangos cynnydd disgyblion mewn naw pwnc gwahanol ar draws y cwricwlwm, ac yn fesur da o gyrhaeddiad cohort o flwyddyn i flwyddyn, (Haf 2024: 348 a Haf 2025: 366). Ymhellach roedd sgor cyfartaledd disgyblion yn Llythrennedd (Cym neu Saes Iaith neu Llen) a Rhifedd a Gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol iawn gydag ysgolion eraill tebyg yng Nghymru ac mae canlyniadau Bro Edern yn 2025 yn dangos cynnydd da dros gyfnod o flynyddoedd.



*Dathlu llwyddiant, Haf 2025*

Rwyf hefyd yn falch o nodi'r canlyniadau o fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ble roedd canlyniadau disgyblion eto yn gadarnhaol iawn. Mae dadansoddiad a chrynodeb o ddata yr ysgol ar gael ar wefan Fy Ysgol Leol sydd yn ddefnyddiol i edrych ar berfformiad ysgolion dros gyfnod o amser.

**Safon Uwch a Cyrsiau Galwedigaethol Lefel 3**

Roedd Bl13 hefyd yn dathlu graddau haeddiannol gyda nifer o ddisgyblion a berfformiodd yn ardderchog. Roedd y canlyniadau da a gofnodwyd yn golygu bod pob disgybl ym Mlwyddyn 13 wedi llwyddo i sicrhau eu dewis cyntaf neu ail ddewis o addysg uwch. Braf oedd gweld cymaint o'n disgyblion, wedi ennill gradd A*/A yng nghymhwyster Bagloriaeth Cymru.

**Ymweliadau Estyn 2025-26**

Yn dilyn ein harolwg yn Mawrth 2025, nodwyd bod yr ysgol mewn Mesurau Arbennig a cawsom 5 argymhelliad i fynd i'r afael a hwy dros y cyfnod nesaf. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi derbyn dau ymweliad hyd yma (Rhagfyr 2025 a Mawrth 2026) gydag ymweliad eto i ddigwydd yn Nhymor yr Haf. Mae'r adborth o'r ymweliadau yma yn nodi bod cynnydd da mewn sawl agwedd o'r argymhellion. Mae'r adroddiadau yn cyfeirio at "*well cysondeb yn strwythur a threfn gwersi … yn y gwersi mwyaf effeithiol mae cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar ac mae athrawon yn cwestiynu'n fedrus er mwyn annog disgyblion i ymestyn eu hatebion.*" Maent hefyd yn son am weld effaith strategaethau addysgu yr ysgol i hybu siarad a gwrando gan sylwi bod disgyblion yn ymateb yn fwy aeddfed a gyda gafael gwell ar eirfa arbenigol. Serch hynny mae angen bod ein darpariaeth yn dangos mwy o gysondeb, ac ar adegau mae angen mwy o berchnogaeth ar lyfrau gwaith disgyblion a ffocws mwy clir ar fedrau ysgrifenedig.



Pencampwyr Sir Pel-rwyd dan 16

Nododd Estyn yn eu hymweliadau fod yr ysgol wedi cymryd camau priodol i wella presenoldeb. Ymysg y strategaethau llwydiannus yma mae cyfathrebu mwy cyson gyda rhieni a hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ymysg disgyblion. Nodwyd yn ogystal bod prydlondeb disgyblion i wersi wedi gwella'n sylweddol. Canmolwyd hefyd drefniadau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant sydd wedi eu grymuso ac yn cysylltu'n well gyda datblygiad proffesiynol staff. Cyfeiriwyd hefyd am gefnogaeth a gweledigaeth glir y corff llywodraethol sydd "*wedi cynyddu eu gwaith a'u dylanwad o ran gwerthuso cynnydd ac ansawdd addysgu … Mae lefel yr her a'r gefnogaeth a roddir i uwch-arweinwyr gan y llywodraethwyr trwy gyfarfodydd wedi'i rymuso*".

Ar ddiwedd tymor yr haf 2026, er bod ein bod yn parhau mewn categori Estyn, mae'r ysgol yn hyderus iawn bod taith gwelliant drwy gydol y flwyddyn yn arddangos cyfeiriad clir ac wedi grymuso capasiti yr ysgol i sicrhau cynnydd pellach.

Bydd yr ysgol felly yn croesawu ymweliadau Estyn, a chefnogaeth bellach Cyngor Sir Caerdydd yn ystod 2026/27 fydd yn golygu ymweliadau monitro bob tymor yn y flwyddyn o'n blaen.

**Ymgysylltiad Cyngor Caerdydd ar ddyfodol addysg Gymraeg**

Yn Nhymor y Gwanwyn 2026, lansiwyd proses ymgysylltiad gan Gyngor Caerdydd ar dwf cynnaliadwy addysg Gymraeg o fewn y ddinas. Un o'r opsiynau a gynnigiwyd oedd symud safle yr ysgol i leoliad newydd ynghyd a buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gynnig adnoddau ac adeiliadau 21ain Ganrif. Trafodwyd yr opsiynau oll gan y Corff Llywodreathu gan gytuno ar ymateb cytun i'r ymgysylltiad, ac annogwyd rhieni a chymuned yr ysgol i leisio eu barn ynglyn a'r cynnigion. Daeth yn amlwg iawn bod angen buddsoddiad sylweddol i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y ddinas, er mwyn darparu

cyfleusterau addas. Rydym yn deall bod y Cabinet yn ystyried yr holl ymatebion yn Nhymor yr Hydref ac edrychwn ymlaen i glywed beth fydd gweledigaeth y Cyngor ynglyn a chamau nesaf i addysg Gymraeg y ddinas, ac Ysgol Bro Edern yn arbennig, er mwyn ystyried ein ymateb pellach. O ran cohort uwch na'r disgwyl yn Medi 2027, nid ydym yn rhagweld unrhw wasgedd ar leoedd yn Bro Edern a bydd lleoedd digonol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion y dalgylch yn 2027.

**Cyfathrebu Rhieni – *Arbor***

Eleni, fel y gwyddoch mae pob ysgol yng Nghaerdydd wedi mudo ein systemau rheoli gwybodaeth i lwyfan cyfathrebu newydd Arbor. Mae hyn yn golygu bod holl systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu yr ysgol bellach drwy Arbor, er bod cyfnod o drosglwyddo systemau o hyd dros y misoedd nesaf. Rydym yn ymwybodol bod rhai rhwystredigaethau wedi bodoli gyda'r llwyfan, *Classcharts*, ac felly rydym am gymryd ein hamser i sicrhau ein bod yn gwella ein dull cyfathrebu drwy lwyfan app. Arbor i rieni.

Rydym yn rhannu cylchlythyr ysgol bob pythefnos gyda rhieni ac rydym hefyd yn falch o rannu newyddion cyfredol a dathlu llwyddianau disgyblion drwy ein cyfri Instagram: @broedern ac ar ein gwefan: Gwefan Bro Edern

**Datblygiadau cwricwlaidd**

Fe wnaethom ddiwygio ein dewisiadau cwricwlaidd ar gyfer Medi 2026 eleni, drwy roi ychydig mwy o berchnogaeth i ddisgyblion yn Bl 8 i ddewis am eu cyrsiau wrth baratoi at gyrsiau yn Bl 9. Bydd hwn yn gyfle i ddyfnhau medrau pynciol ac yn galluogi disgyblion i ddewis mwy gwybodus ar gyfer cyrsiau TGAU yn Bl 10 ac 11. Bydd hyn yn golygu bod disgyblion yn elwa o fwy o amser yn eu pynciau opsiwn ac yn cael blas go iawn ar bynciau cyn dewis yn derfynol ar ddiwedd Bl 9.

Fe wnaethom hefyd ymateb i'r cyrsiau newydd sydd yn cael eu datblygu yng Nghymru, gyda cyrsiau newydd yn TGAU i Fl 10. Mae rhai o'r asesiadau rhain wedi dechrau eisioes ac rydym yn falch o fod wedi paratoi a chydlynu y cyrsiau newydd er mwyn cefnogi disgyblion yn eu dysgu. Bydd mwy o gyrsiau newydd yn dechrau yn Medi 2026 gyda thon olaf y cymwysterau galwedigaethol yn cael eu lansio yn 2028. Gwnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn Ne Cymru (CYDAG) mewn diwrnod HMS a oedd yn canolbwyntio ar rannu arfer da. Ym mis Mawrth, ymunodd staff Bro Edern â chydweithwyr o ysgolion eraill mewn hyfforddiant yn rhannu arfer dda mewn pynciau ac wrth baratoi at addysgu y cymwysterau newydd.

O fewn y Chweched Dosbarth, roeddem yn falch i groesawu nifer dda o ddisgyblion sy'n dewis dychwelyd neu ymuno â Bro Edern ym Ml 12. Roedd hyn yn cynnwys cwrs newydd Peirianneg Lefel 3 sy'n cael ei gynnig yma yn Bro Edern ac a fydd o Fedi 2026 yn agored i ddisgyblion ar draws BroPlasTaf. Rydym yn falch o barhau â'n cynigion partneriaeth trwy BroPlasTaf, sy'n ymestyn ein colofnau dewis gyda 36 o gyrsiau gwahanol ar gyfer myfyrwyr CA5. Un o'r cyrsiau arbennig yma yw cwrs Gofal Plant Cache Lefel 3 sy'n cynnig llwybr astudio a hyfforddi arbenigol cyfrwng Cymraeg yn yn ddinas. Rydym yn falch iawn o'r ffaith bod pob disgybl sydd wedi dilyn y cwrs hwn wedi cael cynnig swydd amser llawn neu barhau a'u hastudiaeth o fewn y maes i lefel uwch dros y blynyddoedd diwethaf.



*Ffarwel Bl 13, Haf 2026*

Ymwelodd aelodau o'n Corff Llywodraethol ag adrannau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd adrannol ac i arwain craffu llyfrau a chyfweld disgyblion ar eu profiadau. Mae'r ymweliadau cyswllt hyn yn sicrhau bod y Corff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad proffesiynol staff, yn ogystal â sicrhau bod Arweinwyr Adran yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith.

**Dysgu proffesiynol staff a phartneriaethau**

Un o brif nodweddion adeiladu arfer dda a datblygu staff yw meithrin partneriaethau newydd a gweithio'n agos gydag ysgolion a sefydliadau eraill.

Gweithiodd Ysgolion Bro Edern, Plasmawr a Glantaf yn agos i gynllunio rhaglen o ymweliadau cymar rhwng adrannau yn ystod 2025-26. Mae'r ymweliadau yma wedi golygu bod arweinwyr adran ar draws y dair ysgol wedi cynnal ymweliad a phob ysgol, yn ymuno a gwersi, yn craffu ar waith ac yn cynnal cyfweliadau gyda disgyblion. Mae'r adborth o'r ymweliadau yma wedi bod yn gyson gadarn gan roi i bob ysgol yn ei dro, syniadaeth a chyfeiriad er mwyn gwella ymhellach. Bydd y gwaith ysgol i ysgol yn parhau yn ystod 2026-27 er mwyn elwa pob adran o fewn yr ysgol.

Yn ogystal rydym wedi elwa o waith gyda ein ysgolion clwstwr partner, ac eleni byddwn yn elwa o waith partneriaeth yn maes ADY. Roedd ein HMS ar y cyd yn ffocysu ar arferion da yn maes addysgu ADY, sydd hefyd yn elwa disgyblion ar draws yr ystod gallu. Cawsom fudd o gyfres o weithdai gan adran ADY arbenigol y sir, yn canolbwyntio ar strategaethau effeithiol i gefnogi disgyblion ac anableddau addysgu.

Mae Bro Edern hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, yn CYDAG (Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ledled Cymru) a Gyda'n Gilydd (Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yng Nghonsortiwm Canolbarth y De).

Eleni, yn dilyn ymweliad ag Ysgol Gyfun Gymraeg Gwynllyw yn Pont-y Pwl, fe wnaethom sefydlu rhaglen ddysgu proffesiynol newydd i staff drwy hyfforddiant Walkthrus. Dyma gwrs hyfforddi proffesiynol sy'n addas i bob aelod o staff addysgu ac sy'n canolbwyntio ar sefydlu arferion addysgu effeithiol cytun ar draws yr ysgol. Mae ein hymweliadau gyda gwersi yn cadarnhau bod y gwaith yma yn effeithiol wrth ymestyn cysondeb ar draws gwersi, codi disgwyliadau a sicrhau bod perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion yn sail i addysgu da.

**Buddsoddiad Campws a TGCh**

Yn Medi 2025, gwnaethom barhau ein blaenoriaeth i fuddsoddi mewn Technoleg Ddigidol drwy ddarparu *Chromelyfr* personol i ddisgyblion. Trwy fuddsoddiad Cyngor Dinas Caerdydd, rydym wedi gallu darparu dyfais bersonol i bob disgybl o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 13. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn wedi ein galluogi i adolygu ein cwricwlwm ac integreiddio sgiliau digidol i'r addysgu. Er hyn mae'n debygol bod y cyllid canolog hwn wedi dod i ben, a bydd angen edrych eto ar addasu ein darpariaeth ar gyfer Medi 2026.



*Tim STEM Her Aero, Bl1*

Yn ystod Haf 2025 gwnaethpwyd gwellianau pwysig i'r safle drwy ychwanegu camerau cylch cyfyng o fewn yr adeilad ac uwchraddio'r system gwresogi. Yn ogystal yn ystod y flwyddyn buddsodwyd mewn ffynhonau dwr i'r safle, adnewyddu a gosod arwyddion newydd a darparu system newydd modern wrth y tiliau i gyflymu'r gwasanaeth arlwyo. Gwnaethpwyd buddsoddiad sylweddol i'r Neuadd Chwaraeon sydd bellach yn caniatau chwaraeon aml-gamp i ddigwydd yn ddi-rwystr, ac yn galluogi'r ysgol i ddarparu'r Neuadd fel gofod ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol yn ogystal. Yn olaf, gwnaethpwyd gwellianau i Bloc Dysgu 1 drwy osod deunydd adlewyrchu ar y ffenestri sydd wedi gostwng y tymhereddau uchel sy'n cronni yn yr ystafelloedd rhain yn Nhymor yr Haf.

**Lles a Diogelu**

Eleni roedd ein 'gwersi lles' yn gyfuniad o ddyddiau penodol ar gyfer Bl 10 ac 11 a gwersi wedi eu hamserlennu i flynyddoedd eraill. Ar gyfer Bl 10 ac 11 roedd hyn yn golygu dyddiau penodol gyda amryw o siaradwyr gwadd ac elusennau yn cyfrannu sesiynau gwerthawr i'n myfyrwyr. Yn 2026/27 rydym am symud i ddarpariaeth gwers lles bob pythefnos dan ofal y tiwtor personol i bawb. Dyma

gyfle fydd yn gallu darparu cyngor, trafodaeth a gofod diogel i drafod materion allweddol lles ar gyfer ein disgyblion.
Roeddem yn falch iawn o groesawu rhai o'n partneriaid addysgol i Bro Edern i ddarparu gweithdai a sesiynau rhyngweithiol i'n myfyrwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys:

Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth
Gweithdai cydraddoldeb
Gweithdy defnyddio diffibriliwr ar gyfer y Chweched
Menter Caerdydd
Bl 11 Cyfweliadau byd go iawn ar gyfer disgyblion y cwrs Sgiliau Byd Gwaith
Gwethdai No More Knives

Rydym wedi elwa o hyfforddi ein myfyrwyr hŷn fel mentoriaid cymheiriaid sy'n mentora ac yn cefnogi disgyblion sy'n profi bod bywyd ysgol yn anodd.

Mae "*Porth*" (ein hwb lles i fyfyrwyr), yn cynnig cymorth pwrpasol sy'n cynnwys ymyriadau grŵp fel '*Disgybl Ffrwydrol*', 'ELSA', *Talkabout*, *Thrive*, sy'n gysylltiedig a Iechyd Meddwl Sylfaenol, Therapi Celf, Byw'n Iach a Ffitrwydd yn ogystal â darpariaeth cwricwlwm amgen.

Mae Miss Eleri Mai Thomas, (ein swyddog cymorth teulu) wedi datblygu cysylltiadau cymunedol gwerthfawr i'n teuluoedd a'n disgyblion. Mae'n gweithio'n agos gyda theuluoedd i ganfod cymorth addas ac yn cyfeirio yn ofalus drw ddull y Porth Teulu neu drwy elusennau megis Barnado's. Drwy gynnal ymyrriadau un i un a grwp gyda disgyblion mae'n dod i adnabod sefyllfoedd cymleth a bregus yn dda gan weithio'n strategol i ganfod datrysiadau i herio gorbryder, presenoldeb isel neu effaith trawma. Mae'n darparu cefnogaeth ymarferol i ofalwyr ifanc a nifer o ddarpariaethau pwrpasol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion. I'r dyfodol mae'n awyddus i gefnogi prosiectau grymuso merched a herio rhagfarn, yn ogystal a cefnogi cais Bro Edern fel Ysgol Noddfa.

Ymunodd Heledd Owen â ni drwy bartneriaeth BroPlasTaf, gan gefnogi disgyblion gyda phresenoldeb yn yr ysgol sy'n seiliedig ar orbryder. Mae ymgysylltu â disgyblion a theuluoedd yn yr ysgol ac yn eu cartref wedi gweld gwelliant ym mhresenoldeb a gallu'r disgyblion hyn i ymgysylltu â'r ysgol

Yn ystod tymor yr Hydref, cwblhaodd holl ddisgyblion Bro Edern holiaduron a gyfrannodd at y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN). Mae'r ymchwil genedlaethol hon yn rhoi dadansoddiad o brofiad, ymddygiad ac agweddau disgyblion ac yn cymharu ysgolion unigol â chyd-destun Cymru gyfan. Mae'r ymatebion a'r adroddiad a dderbyniwyd yn rhoi syniad da o feysydd cryfder a meysydd y bydd angen sylw arnynt, y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ein Cynllun Gwella Ysgol newydd. Ardaloedd a amlygwyd ar gyfer ein sylw yw: magu hyder a grymuso merched yn ogystal â delio â safbwyntiau eithafol a niweidiol o ragfarn. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n cydweithwyr ym Mhlasmawr a Glantaf i wynebu rhai o'r materion hyn gyda'n gilydd.

Lansio *Fy Llais*: Ym mis Medi 2024, lansiwyd *Fy Llais* (*My Voice*) yn yr ysgol i gynnig cyfle i ddisgyblion estyn allan am gymorth a chyngor. Yn dilyn adroddiadau fel: "*Pam nad ydym yn dweud wrth ein hathrawon*" a "*Everyone's Invited*" mae hwn wedi bod yn gam pwysig i ddweud wrth ein myfyrwyr nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain a bod staff ar gael ar adegau o argyfwng i gael cymorth ac arweiniad. Yn ogystal cynhaliwyd noson wybodaeth ar lein i rieni (ar y cyd a Glantaf) am faterion diogelwch ar lein gyda ymarferydd proffesiynol o *Everyone's Invited*. Roedd y noson yn hynod boblogaidd gyda rhieni yn derbyn gwybodaeth bwysig am negeseuo yr ifanc drwy apiau a'r modd mae dylanwadwyr yn effeithio a thargedu pobl ifanc drwy dechnoleg.


*Parti Dawns, Eisteddfod yr Urdd*

*Ymweliadau Diogelu ac Awdit 360:* Eleni, roeddem yn falch iawn o gwblhau awdit cyflawn diogelu 360 Cyngor Sir Caerdydd sy’n weithgaredd ysgol gyfan gwerthfawr iawn i fesur darpariaeth ac effeithiolrwydd ein systemau.  Bydd hyn yn digwydd yn flynyddol o hyn allan ac mae’r broses yn cynhyrchu cynllun gweithredu effeithiol i’r ysgol unigol.  Cynhaliwyd ymweliad diogelu cymar rhwng BroPlasTaf ac fe wnaeth ymweliadau cyswllt ein Llywodraethwr Diogelu, rymuso ymhellach ein arbenigedd a’n darpariaeth.

*Protocol Tân a Llwyrgloi*: Fe wnaethon ni ddiweddaru ein protocol tân a protocol llwyrgloi, gan wneud newidiadau yn y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu â rhieni yn ystod y digwyddiadau hyn.

*Defnydd Ffônau Symudol:*  Mewn ymateb i dwf camddefnydd ffonau symudol yng nghymuned yr ysgol, gan gynnwys digwyddiadau o ddefnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol a bwlio ar-lein, gwnaethom ddiwygio a chryfhau ein hymateb i'r defnydd o ffonau symudol ar y campws. O Fedi ymlaen, gwnaethom fabwysiadu protocol llawer llymach ar ddefnydd ffonau symudol sydd wedi lleihau'r camddefnydd.  Mae'r protocol newydd wedi'i gefnogi gan rieni a staff.


Cinio blasus, Bro Edern

**Darpariaeth Bwyd a Diod**

Mae Bro Edern yn ffodus i elwa o dîm hynod brofiadol ac effeithiol o staff arlwyo o dan arweinyddiaeth Mrs Alison Evans a Mrs Leanne White.  Er gwaethaf maint cyfyngedig y gegin a'n hardal fwyta, rydym wedi cynnig darpariaeth lawn i fyfyrwyr drwy gydol y flwyddyn. O Fedi 2025 sefydlwyd amser cinio arwahan i Bl 7, wnaeth ostwng amseroedd ciwio a sicrhau gofod pleserus ac ymlaciol i Bl7 sefydlu o fewn eu hysgol newydd.  Bellach mae Bl 8 wedi ymuno a nhw yn y cyfnod cinio arwahan sy’n golygu bod amser cinio wedi ei reoli’n well a gyda llai o bwysedd niferoedd yn y ffreutur.  Yn sgil y newidiadau, mae ffreutur Bro Edern yn gweini mwy o brydau poeth, ac mae amseroedd ciwio yn rhesymol ac yn cael eu rheoli'n dda. Mae'r ddarpariaeth arlwyo yn yr ysgol yn parhau i fod yn boblogaidd ymhlith disgyblion, gyda gwerthiant cryf o'r opsiwn *Pryd y Dydd* dyddiol, am bris o £3.55. Mae'r opsiynau dyddiol sydd ar gael – fel *Pryd y Dydd*, potiau Pasta, Salad, Pizzas a byrbrydau hefyd yn cynnwys opsiynau iach o ffrwythau, tato pôb a llenwadau, baguettes, a paninis sy’n annog bwyta'n iach a diet cytbwys.   Dyfarnwyd y gradd 5 i Bro Edern ar gyfer safonau hylendid yn 2024 ac eto yn Hydref 2025. Rydym wedi gosod ffynhonnau dŵr oer (2) newydd ac mae dŵr hefyd yn cael ei ddarparu am ddim yn ystod amser cinio.   Mae hyn wedi golygu lleihau ein gwastraff plastic yn sylweddol.  Rydym yn parhau i ddefnyddio'r system dalu heb arian parod sy'n hynod effeithiol i ddisgyblion gael gwasanaeth cyflym ac effeithlon wrth y til.

**ADY (Atodiad B)**

Gweler Atodiad B am adroddiad manwl ar ein cefnogaeth a gweithgaredd ADY gan Mrs Meriel Powell Pennaeth Cynorthwyol / CADY Bro Edern.

**Llais y Disgybl a Prif Swyddogion**

Etholwyd aelodau Senedd yr Ysgol yn nhymor yr hydref ac maent wedi gallu rhoi safbwynt disgyblion ar faterion ysgol gyfan.  Roedd sgyrsiau gyda'r Senedd yn hynod werthfawr wrth iddynt drafod materion fel: darpariaeth lles / tegwch grwpiau lleiafrifol / adnoddau ar yr iard ac argaeledd ffynhonnau dŵr. Mae'r rhain wedi dod yn feysydd datblygu o fewn y cynllun gwella ysgol neu wedi cael eu gweithredu ar gyfer mis Medi.

Cawsom ein calonogi hefyd gan y niferoedd uchel sy'n gwirfoddoli ym Mlynyddoedd 12 a 13 yn ein hymyriadau cymorth llythrennedd a rhifedd.  Cyflawnodd dros 20 o fyfyrwyr chweched dosbarth wersi bob wythnos ar sail un-i-un gan wella oedran darllen disgyblion a gweithio trwy ymarferion mathemateg. Mae adborth myfyrwyr o'r sesiynau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn.



Tim Rasio STEM, Branwen

Byddwn hefyd yn dymuno canmol arweiniad a chyfraniad ein Prif Swyddogion eleni wrth arwain y Senedd Ysgol ac mewn cyfarfodydd neu drafodaethau anffurfiol ar ddigwyddiadau elusennol a gwelliannau ysgol. Diolch a dymuniadau gorau i Ellie Mullins, Daisy Tucker, Alex Morgan a Iolo Williams, sef prif swyddogion 2025-26. Byddwn yn ethol y garfan nesaf o Brif Swyddogion yn etholiad yr ysgol ym mis Medi.

Cafodd ein grwp hyrwyddo'r Gymraeg, y *Tafodau Tanbaid* flwyddyn hynod bwysig wrth drefnu gweithgareddau ar gyfer amrywiol ddigwyddiadau fel Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru ac mewn gweithgareddau hwyliog o fewn y gymuned neu gyda ein disgyblion oedran cynradd yn y clwstwr. Drwy weithgareddau y *Tafodau* croesawyd Ed Holden i gynnal gweithdai rapio yn y Gymraeg a mwynhaodd nifer o ddisgyblion ein Disgo Santes Dwynwen i ddathlu Santes Cariadon Cymru. Fe gydweithion nhw'n agos gyda Menter Caerdydd hefyd i drefnu digwyddiadau megis hyrwyddo Diwrnod Shwmai Su'mae a darllen gyda disgyblion iau y clwstwr fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr.

**Gweithgareddau allgyrsiol**

Un nodwedd nodedig o gymuned Bro Edern yw ehangder a chyfoeth ein bywyd allgyrsiol. Roedd y gweithgareddau niferus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Taith y Ffosydd i Ypres a'r Somme ar gyfer disgyblion TGAU a Lefel A Ffrangeg a Hanes
- Tîm F1 Ysgolion Parabolica wedi cynrychioli Cymru yn rownd y byd yn Singapore ac ennill y wobr ar gyfer Merched F! ym myd STEM
- Bl 8 Taith Glan-llyn gyda'r Adran Gymraeg, yn cynnwys ymweliad â Thryweryn
- Taith TGAU a Lefel A Daearyddiaeth i ardal Sorrento, yr Eidal
- Ymweliad diwrnod 'Gwersi o Auschwitz' disgyblion Hanes Bl 12 â Gwlad Pwyl
- Bl 10 ac 11 Ymweliad STEM â Chanolfan Williams F1, Rhydychen
- Cyfnewid Nantes gyda'r Collège Rutigliano, Nantes, Ffrainc
- Taith Sgïo i Kitzbühel, Awstria yn ystod gwyliau'r Pasg
- Bl 9 Taith Sgiliau Daearyddol i Storey Arms
- Bl 11 Alldaith Awyr Agored dros nos i'r Gŵyr
- Ymweliadau Drama â Theatr y Sherman
- Bake Off Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd
- Gweithdy Celf yn Crefft yn y Bae
- Gweithdy Llenyddiaeth Bl 12 a 13 yng Nglan-llyn
- Ffair Nadolig y Cyfeillion
- Dathliadau Diwrnod Shw mae, Su mae i hyrwyddo'r Gymraeg
- Disgyblion wedi ymddangos ar ddrama Y Coridor, S4C
- Taith Troseddeg Bl 12 a 13 i'r Uchel Lys a'r Llys Brenhinol yn Llundain
- Etholiad Ysgol - ethol Pwyllgorau, Cyngor Ysgol a Phrif Swyddogion
- Bl 10 Alldeithiau lleol i'r Ganolfan Dŵr Gwyn, Mynydd Machen, Rhydri, Mynydd y Garth, Storey Arms
- Disgyblion yn rhan o Brosiect Cerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru
- Gweithdy Sgiliau Barbwr gyda Dana Razie, cyn-ddisgybl ar gyfer Bl 10
- Gweithdy Drama gyda chriw Cwmni Theatr yr Urdd a chast Calon
- Tîm Siarad Cyhoeddus Seren yn cynrychioli'r ysgol yn Neuadd y Sir
- Pacha Pritchard wedi ennill prif wobr 16-18 oed y Gymdeithas Dylunio a Thechnoleg
- Ffilmio Newyddion BBC am statws ieithoedd yn y Chweched yng Nghymru
- Ymweliad â'r Theatr i weld Matthew Rhys yn portreadu Richard Burton
- Cystadlu yn Cogurdd a Poburdd a dau ddisgybl yn cyrraedd y genedlaethol yn Ynys Môn
- Tegid, Gruff a Maddie wedi ennill Gwobrau Arloesi CBAC mewn seremoni yn y Senedd
- Merched y Chweched wedi gwneud cyfweliadau am iechyd merched ar Newyddion S4C


Her STEM Aero Bl 10

- Seremoni Wobrwyo TGAU a Lefel A gyda Tomos Dafydd o’r BBC fel Gŵr Gwadd
- Bl 12 a 13 Diwrnod Gwleidyddiaeth gan gynnwys sesiwn o gwestiwn ac ateb cyn etholiad y Senedd
- Disgyblion y Chweched wedi cael eu cyfweld gan S4C am bwysigrwydd pleidleisio
- Mentor Llwybrau Ieithoedd yn cydweithio dros fis gyda disgyblion yr Adran ITM
- Cynhadledd Dathlu Ieithoedd ym Mhrifysgol Abertawe ar gyfer disgyblion ITM Bl 12 a 13
- Dathliadau Dydd Miwsig Cymru gyda Menter Caerdydd
- Tîm F1 Branwen (Merched Bl 10) yn ennill yn y rownd ranbarthol yn Sain Ffagan ac yn mynd ymlaen i gynrychioli’r ysgol yn Rownd Prydain yn Sheffield
- Gweithdai am bwysigrwydd astudio yn y Gymraeg gan y Coleg Cymraeg ac enwogion Cymraeg i Bl 11
- Gwobr 1af i Dafydd Bl 9 yng nghystadleueth Animeiddio’r Urdd
- Bl 12 Gwaith Maes Daearyddiaeth yn Llyn y Fan Fach
- Ffair UCAS ar gyfer Bl 12 yn yr ICC yng Nghasnewydd
- Taith Busnes Adwerthu a Thwristiaeth i Longleat
- Bl 13 Gwaith Maes Daearyddiaeth yn y Cotswolds
- Taith Hanes TGAU i Garchar Shepton Mallett
- Bl 12 Taith Seren i gynhadledd yn Ysgol Fitzalan
- Disgyblion Hanes: Ymweliad ag Archif Morgannwg
- Dathliadau a Disgo Diwrnod Santes Dwynwen
- Disgyblion Bl 7 ac 8 wedi ennill gwobrau niferus yng Nghystadleuaeth Maths UKMT
- Dawns Ffarwel Bl 11 ac ymweliad ag Infinity
- Taith y Tafodau Tanbaid i Ysgol Bro Eirwg i ddarllen gyda disgyblion iau fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr
- Disgyblion Bl 10 Technoleg wedi ennill Gwobr Her Aero CAVC eleni
- Taith Wyddoniaeth i Sioe y Big Bang a West Midlands Safari Park
- Ymweliad â Phrifysgol De Cymru i ddechrau’r broses UCAS gyda Bl 12
- Ffair Wyddoniaeth Bl 7 gyda’r disgyblion yn arddangos eu hymchwil a’u harbrofion
- Seremoni Her TDI gyda 5 disgybl ar y Rhestr Fer yn Ffatri Yamazaki Mazak, Caerwrangon
- Gyrfaoedd sy’n creu’r dyfodol - Cynhadledd ym Mhrifysgol De Cymru
- Bl 9 Gweithdai Beatbocsio gydag Ed Holden
- Cyngerdd Band Pres Melin Griffith a disgyblion yr ysgol
- Taith Trên i Aberhonddu ar gyfer grwpiau o ddisgyblion
- Teithiau Haf niferus i wahanol lefydd, pell ac agos
- Taith i drac Silverstone ar gyfer Tîm F1 Branwen
- Cwrs Doctoriaid Yfory ar gyfer disgyblion Bl 11 a 12
- Gig Dadleoli a Bandiau’r ysgol - Tafwyl @BroEdern
- Perfformiadau gan ddisgyblion yr ysgol yn Tafwyl



*Tim 7 bob ochr dan 18, Parc Rosslyn*



*Taith Ddaearyddiaeth i dde’r Eidal*

**Gweithgareddau’r Cyfeillion**

Diolch o galon i’r Cyfeillion sydd yn gweithio’n galed drwy’r flwyddyn yn cefnogi’r ysgol ac yn codi arian gwerthfawr er mwyn cefnogi gweithgareddau yn yr ysgol. Unwaith eto eleni, mae eu gweithgareddau wedi cynnwys:

- Rhedeg ein Swap Siop hynod o lwyddiannus
- Darparu lluniaeth i rieni a staff yn ein holl nosweithiau rhieni a nosweithiau agored
- Darparu stondin a danteithion yn ein cyngherddau a’n sioeau
- Trefnu’r Ffair Nadolig
- Rhedeg ein Raffl Nadolig
- Trefnu’r Noson Cyri a Bingo hynod lwyddiannus
- Darparu stondin brysur a phoblogaidd yn yr Eisteddfod Gylch a Sir a bwyd ar gyfer y beirniaid

**Eisteddfod yr Urdd, Ynys Mon 2026**

Pleser oedd cymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ynys Môn yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Roedd myfyrwyr Bro Edern yn amlwg mewn sawl cystadleuaeth, ac a gaf i ddiolch i'r holl ddisgyblion a gynrychiolodd yr ysgol gydag egni a staff o'r fath am eu hyfforddiant a'u cefnogaeth. Roedd yn braf gweld y grwpiau dawns, grwp llefaru ac unigolion yn y cystadlaethau cerdd yn cynrychioli'r ysgol gyda chymaint o angerdd mhen pellaf Cymru! Diolch yn fawr iawn i'r holl fyfyrwyr a fu'n cystadlu â chymaint o frwdfrydedd yn yr holl gystadlaethau amrywiol – a gobeithio i chi fwynhau'r profiad ym Môn, Mam Cymru!



*Pencampwyr Pel-rwyd y Sir dan 14*

Pleser hefyd oedd gweld bandiau a chorau'r ysgol yn cynrychioli'r ysgol yng Ngŵyl Tafwyl. Roedd hyn yn dilyn digwyddiad arbennig Tafwyl @BroEdern pan rannodd pump o fandiau'r ysgol y llwyfan gyda chynrychiolaeth Bro Edern cryf yn y bandiau Dadleoli a Paralel.

Fe wnaethon ni hefyd fwynhau dod at ein gilydd ar gyfer ein Cyngerdd Dathlu Doniau yn Nhachwedd a Mai a'n Cyngerdd Nadolig ym mis Rhagfyr yn Neuadd yr Ysgol. Roedd safon y perfformiadau a'r nifer o ddisgyblion oedd yn cymryd rhan yn aruthrol ac yn gosod y naws ar gyfer ein dathliadau teuluol Nadoligaidd dros gyfnod y Nadolig

**Billy Elliott**

Roedd ein Drama Gerdd Billy Elliott, a lwyfannwyd ym mis Mawrth yn berfformiad ffres, Cymreig ac egniol oedd yn cynnwys gynaint o dalentau'r ysgol. Roed y Sioe yn gyfle i ddau set o brif gymeriadau ymgymryd a'r her oi berfformio bedair gwaith i neuaddau llawn oedd wedi mwynhau pob eiliad o berfformiadau teimladwy a hynod aeddfed. Roedd perfformiadau'r disgyblion drwyddi draw yn rhagorol ac roedd aeddfedrwydd ac eglurder cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gynulleidfa yn amlwg. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran mor wych, wedi'u cefnogi a'u cyfarwyddo gan athrawon a staff Bro Edern.



*Sioe Gerdd, Billy Elliott*

**Llwyddiannau Chwaraeon**

Mae wedi bod yn bleser gweld chwaraeon tîm yn blodeuo ac maen nhw wedi cael tymor hynod lwyddiannus o chwaraeon cystadleuol gyda thimau mewn sawl camp yn gwneud argraff hynod o gryf ar draws meysydd chwarae yng Nghymru a thu hwnt. Llongyfarchiadau i dimau Pel Rwyd Bl 8 a 10 yn ennill Twrmnament y Sir am yr ail flwyddyn yn olynnol, a thim Bl 8/9 yn ennill pencampwriaeth cenedlaethol yr Urdd am yr ail flwyddyn yn olynnol. Llwyddodd tim merched Bl 8 athletau i'w cornoni'n bencampwyr yn nhwrnament athletau ysgolion De Cymru yn Aberdar. Llwyddodd tim bechgyn pel-droed Bl8 i gipio y safle cyntaf yng nghystadleuaeth pel-droed 5 bob ochr cenedlaethol. O fewn Rygbi, llwyddiant pellach i dim merched Bl 10/11 fel Pencampwyr Rhanbarth De Cymru a coronwyd tim bechgyn bl 11 yn bencampwyr Sir am y drydedd flwyddyn yn olynnol. Braf hefyd bod disgyblion Bro Edern wedi cystadlu i safon hynod uchel mewn cystadleuaethau rygbi 7-bob-ochr yn Warwick, Rosslyn Park, Caerwrangon, Trefynwy ac wrth gwrs Pencampwriaethau Cenedlaethol yr Urdd ar gaeau Pontcanna.

Llongyfarchiadau i'n holl dimau felly a diolch didwyll am ymroddiad tîm rhyfeddol o athrawon a hyfforddwyr.

A gawn ni longyfarch myfyrwyr a enillodd anrhydeddau cenedlaethol neu ranbarthol yn ystod y flwyddyn: Rhian Rees ac Amelie Donald (Pel Rwyd Dreigiau a Chymru); Nia Mullins, Ella Donald, Seren Vaughan-Evans; Jesica Parsons, Brianna Smart ac Aleisha Watkins (tim dan 14 / 18 Caerdydd a'r Fro); Olivia Thomas, Seren Vaughan-Evans, Catrin Tomos, Josh Thomas (Athletau); Ethan Carr

(Polo dwr); Lona Gordon (Sglefrfyrddio); Mya Healan, Macsen Lacey-Hughes (Pel-droed); Devon Morris, Corey Talbot, Devon Morris, James Dyaz-Szulik, Gray Shanahan, Isaac Irving, Gruff Evans, Olly Palfrey, Ianto Morgan, Jacob Keepings, Ifan Symons, Will Hopkins, Kylun Hansen, Dylan Mock, Harlee O'Brian, Josh Thomas a Rhydian Poole (Rygbi Ysgolion Caerdydd / Welsh Academicals); Zac Weston (Rygbi Gyngrhair Dwyrain Cymru); Steffan King (Seiclo); Nia Mullins (Pel-fasged); Daisy Holmes, Faye Evans, Seren Thomas, Elen Thomas, Rhiannln Gowen, Nansi Symons,. Leila Evans, Amelia Ohimekpen (Dawns); Brooke Healan, Seren Jones (cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Cheerleading / Danws yn Florida - y ddwy yn cipio safle 5ed yn y byd!).



*Tim Padel Bl 10: Pencampwyr Cymru*

Rydym bob amser yn falch iawn o glywed am lwyddiant a chynnydd talentog ein disgyblion, felly parhewch i rannu eich llwyddiannau gyda ni fel ysgol a'n hymddiheuriadau os bydd rhai llwyddiannau ar goll o'r rhestr uchod.

**Athletau**
Edrychwn ymlaen at gynal ein Diwrnod Athletau bywiog a chystadleuol ym Mhrifysgol Met Caerdydd cyn diwedd tymor yr haf.

**Gwisg ysgol**
Rydym wedi adolygu ein gwisg ysgol ac wedi gwneud rhai newidiadau bach ar gyfer gwisg ysgol i'w gweithredu ym mis Medi 2026, a hynny'n dilyn sgrysiau gyda disgyblion am newidiadau yr hoffent eu gweld. Dylai'r newidiadau hyn olygu arbed costau i rieni a mwy o ddewis i bob disgybl, gan gynwys siwmper mwy cynnes a chyffyrddus i ddisgyblion. Nodyn i'ch atgoffa hefyd bod yr ysgol yn parhau â'n gwasanaeth ailgylchu prysur ac am ddim gan gynnig gwisg o ansawdd da i unrhyw deuluoedd sydd angen eitemau o wisg ysgol. I gyfrannu neu fanteisio ar y cynnig hwn, cysylltwch â phrif dderbynfa'r ysgol.

**Trefn y dydd ysgol**
Yn Nhymor y Gwanwyn cynhaliodd y Corff Llywodraethol ymgynghoraid ar newid y dydd ysgol yn sgil argymhelliad gan y Tim Arwain. Roedd hyn yn deillio o lwyddiant yr amser cinio arwahan i Bl 7 ac 8 a'r amser rhydd estynedig roedd hyn yn ei greu ynghanol y dydd ysgol. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu gyda disgyblion, staff a rhieni a cafwyd ymatebion cadarn i'n holiaduron. Penderfynaid y Corff oedd symud i gyfnod peilot i dreialu'r amseroedd newydd o Fedi 2026 gyda amser gorffen newydd o 2.50pm. Bydd y penderfynaid yn cael ei werthuso eto yng Ngwanwyn 2028, er mwyn dod i benderfyniad terfynol.

**Cymorth elusennol**
Nodwedd arall o'n cymuned yw'r ymateb diffuant y mae disgyblion yn ei ddangos i bob math o gyfraniad elusennol. Gwelsom ymateb cadarnhaol i'n hapeliadau eleni a oedd yn cynnwys:

- Casgliad Diwali ar gyfer y Banc Bwyd
- Casgliad Nadolig y Calendr Caredigrwydd ar gyfer y Banc Bwyd
- Casgliad y Chweched ar gyfer Elusen Cadwyn a'u hostel Nightingale House

Mae hon yn nodwedd bwysig o'n gwaith ym Mro Edern ac rydym yn falch o'n digwyddiadau elusennol.

**Cynllun Gwella Ysgol 2026-28**
Eleni roedd yr ysgol yn gweithio'n agos o dan Gynllun Gwella ol-Arolwg, oedd yn cael ei fonitro'n ofalus gan ein cydweithwyr o fewn yr Awdurdod Lleol, ein Prif Bartner Cydweithredol ac arolygwyr gyda Estyn. Mae'r Cynllun hwn bellach yn cael ei integreiddio oddi fewn i Gynllun Gwella Ysgol, sy'n ymateb wrth gwrs i argymhellion Estyn ond hefyd yn ffocysu ar faterion eraill o flanoraiaeth ar ein taith gwella.

- **Gwella Cynnydd Disgyblion**



*Y Finale, Billy Elliott*

Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar gryfhau addysgu a datblygu medrau ar draws y cwricwlwm yn ganolog i'n taith gwella. Eleni rydym wedi annog ein myfyrwyr i fod yn gyfranogwyr mwy egnïol yn eu dysgu trwy sgiliau siarad a gwrando. Mae ein gwerthusiadau wedi gweld bod disgyblion yn cymryd rhan llawer mwy gweithredol mewn gwersi, gyda mwy o aeddfedrwydd a dyfnder yn eu cyfraniadau llafar. Er hyn nid yw'r dyfnder yma bob amser yn cael ei adlewyrchu yn eu darnau ysgrifennu estynedig, ac felly byddwn yn symud ein ffocws i gryfhau y gwaith llafar a datblygu ymhellach ein gwaith ar wella gwaith ysgrifenedig disgyblion. Bydd hyn yn golygu mwy o bwyslais ar ysgrifennu yn effeithiol ond hefyd yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr i fyfyrio ar eu gwaith, i wneud gwellianau ac i gymryd mwy o berchnogaeth o'u gwaith ysgrifenedig a dwysder eu hymatebion. Eleni, roedd ffocws hyfforddiant staff ar gynllun Walkthrus sy'n raglen integredig i wella sgiliau athrawon i gyflwyno a chymhwyso addysgeg effeithiol yn y dosbarth. Dyma gynllun sydd ar waith mewn sawl ysgol yn y ddinas ac ar draws y De-ddwyrain ac mae'n braf cydweithio ag ysgolion eraill i wella ein darpariaeth ar y cyd. Yn ychwanegol, byddwn yn canolbwyntio ar asesu mewn dau brif faes. Yn gyntaf wrth gryfhau asesu byw mewn gwersi ac adborth wedi'i dargedu ar dasgau. Mae effaith y ffocws hwn wedi bod yn glir iawn wrth graffu ar lyfrau ac mewn trafodaeth llais disgyblion. Yn ail, mae ein ffocws ar *Dasgau Her Uchel* fel asesiad ffurfiol yn bwysig wrth olrhain cynnydd disgyblion a bydd hyn yn cael ei roi ar waith ymhellach i Bl 9 ac i asesiad CA4. I gloi, byddwn hefyd yn cryfhau ein focws a'n blaenoriaeth yn maes ADY. Rydym wedi penodi Mr Sam Grosvenor fel Dirprwy CADY, i gefnogi Mrs Meriel Powell ac edrychwn ymlaen i gryfhau ymhellach, nodwedd o arfer dda a adnabuwyd gan Estyn, yn maes cefnogaeth ADY.

- **Gwella Cymorth Lles**

Mae sicrhau balchder hunaniaeth disgyblion Bro Edern yn eu sgiliau cyfoethog dwyieithog yn flaenoriaeth arbennig. Er bod teimladau disgyblion o falchder yn eu hunaniaeth Gymreig a'u treftadaeth ddiwylliannol amrywiol yn glir mewn cyfweliadau unigol, mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn sgyrsiau anffurfiol ac mewn gwersi yn siomedig. Bydd Bro Edern yn edrych eto ar ein dathliadau diwylliannol, hyrwyddo llysoedd (gan gynnwys canolbwyntio ar well amrywiaeth a chynrychiolaeth) yn ogystal ag ymgysylltu mewn dathliadau cenedlaethol fel: Dydd Miwsig Cymru; Santes Dwynwen; Shwmai Sumae; Eisteddfod Bro Wenynen (Casnewydd) a Tafwyl yn ogystal ag Eisteddfod yr Ysgol, Gŵyl Traws Gwlad a Mabolgampau. Yn ail mae ein Fforwm Dirprwyon Clwstwr eleni wedi bod yn edrych ar strategaethau addysgeg i drechu effeithiau tlodi. Bydd ein HMS Clwstwr yn Hydref yn 2026 yn edrych yn benodol ar strategaethau effeithiol yn y maes hwn drwy RADY (*Raising Attainment of Disadvantaged Youngsters*), ac edrychwn ymlaen i weld effaith strategaethau effeithiol ar ymlyniad a chyrhaediad disgyblion yr ysgol. Yn olaf mae strategaethau pellach i wella ymddygiad disgyblion ynghyd a chyfraddau presenoldeb yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol yma yng Nghymru. Mae tueddiadau cenedlaethol o fewn y meysydd yma yn heriau hefyd yn Bro Edern ac edrychwn ymlaen at weithio mewn dulliau aml-asiantaethol i gefnogi disgyblion i fabwysiadu agweddau at ddysgu mwy cadarnhaol ac i wella cyfraddau presenoldeb ymhellach.

Amlygodd ein hymatebion SHRN diweddar mewn lles yn ogystal â data a gasglwyd trwy ein llwyfan diogelu, *My Concern,* ddau faes ffocws ar gyfer 2026-27. Yn sgil digwyddiadau o misogini a rhagfarn

yn cael eu cofnodi o fewn cymuned yr ysgol, bydd rhaglenni i rymuso merched ac addysgu bechgyn yn dod yn ffocws ar gyfer ein gwaith yn 2026. Bydd hyn o fewn datblygiad ein cwricwlwm yn ogystal ag mewn grwpiau cefnogi disgyblion a llysgenhadon.


*Grwp Dawns, Eisteddfod yr Urdd*

- **Gwella Arweinyddiaeth**

Yn amlwg bydd y drefn bresennol o Arweinyddiaeth Weithredol yn parhau ar gyfer 26-27 ond yn dod i ben erbyn Haf 2027. Mae'n ffocws amlwg felly i gryfhau arweinyddiaeth bresennol yr ysgol ac yn hyn o beth, bydd yn braf croesawu ail Ddirprwy Bennaeth i Bro Edern yn Medi 2026, sef Mrs Megan Bennett fydd yn arwain yn bennaf, ar Addysgu a Dysgu. Bydd angen cynllunio trosglwyddo effeithiol o'r gyfundrefn arwain presennol a hynny gan gadw at fomentwm gwella a chefnogaeth i'r ysgol. Mae'r argymhellion hefyd yn cyfeirio at gryfhau ein prosesayu monitro a hunanarfarnu ac mae ymwybyddiaeth y Corff Llywodraethu yn y cylchoedd arfarnu yma wedi grymuso'n sylweddol dros y 12 mis diwethaf.

Yn olaf, fel y soniwyd yn flaenorol mae cynnal cyllideb gytbwys dros y blynyddoedd nesaf yn sicr yn flaenoriaeth, yn ogystal â sicrhau rhaglen gynaliadwy o welliannau i'r campws, gyda buddsoddiad i ymestyn a gwella cyfleusterau chwaraeon a gwella safonau tai bach ar y campws. Elfen allweddol o ddatblygiad yw ymrwymiad y Cyngor Sir i sefydlu Uned Arbenigol ADY o fewn yr ysgol yn Medi 2027. Dyma ddatblygiad mae'r corff llywodraethu a'r ysgol gyfan yn ei groesawu'n fawr. Dyma gynllun sy'n ymestyn a cyfoethogi ein darpariaeth ac yn sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn gallu derbyn y gefnogaeth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**I gloi,**

Ar ddiwedd y flwyddyn brysur a chynhyrchiol hon, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r plant am eu cwmni, eu hiwmor a'u cyfraniad gwerthfawr, i'r staff am eu hegni, eu creadigrwydd a'u hymrwymiad i bob disgybl unigol ac i chi fel rhieni a'r gymuned ehangach am eich cefnogaeth diflino i'n hysgol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi mewn partneriaeth agos dros y cyfnod nesaf.

Yn gywir

MHTEvans

Matthew H T Evans
Pennaeth Gweithredol


*Taith Hanes Bl 9 i Ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf, Mametz Wood*

**Aelodaeth o'r Corff Llywodraethol 2026**

| | | Etholedig | Diwedd |
|---|---|---|---|
| **Cymuned** | | | |
| | Aled Edwards | 18/11/2024 | 17/11/2028 |
| | Alaw Griffiths | 08/07/2025 | 07/07/2029 |
| Cadeirydd | Hywel Jones | 17/03/2026 | 16/03/2030 |
| | Emma Lane | 24/10/2024 | 23/10/2028 |
| | Carys Pugh D'auria | 20/02/2023 | 19/02/2027 |
| **AALl** | | | |
| | Elin Arfon | 25/06/2025 | 24/06/2029 |
| | Sioned Davies | 01/10/2025 | 30/09/2029 |
| | Dylan Owen | 27/06/2025 | 26/06/2029 |
| | Meilir Tomos | 27/06/2025 | 26/06/2029 |
| | Cllr Imran Latif | 28/11/2025 | 29/11/2029 |
| **Rhiant** | | | |
| Is-gadeirydd | Sian Edwards-Poole | 20/11/2024 | 19/11/2028 |
| | Beca Lyne-Pirkis | 17/07/2024 | 16/07/2028 |
| | Lawrence Kelly | 20/11/2024 | 19/11/2028 |
| | Caryl Parry | 17/07/2024 | 16/07/2028 |
| | Emma Mitchell-Williams | 06/10/2025 | 05/10/2029 |
| | Hannah Todd | 29/11/2025 | 28/11/2029 |
| **Pennaeth Gweithredol** | Matthew Evans | - | - |
| Pennaeth Ysgol | Denis Pugh | dim pleidlais | |
| **Staff Addysgu** | Andrew Jenkins | 02/12/2024 | 01/12/2028 |
| | Alun Evans | 06/03/2024 | 05/03/2028 |
| **Staff cymorth** | | | |
| | Danny Kenny | 26/04/2024 | 25/04/2028 |
| **Peidio pleidleisio** | | | |
| Clerc i'r Llywodraethwyr | Melanie Spearey | - | - |

Ein Partner Cydweithredol o Gyngor Sir Caerdydd yw Mr Geraint Lewis.

Gallwch gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Hywel Jones drwy gysylltu â'r brif swyddfa ar 029 20 489445 neu drwy e-bost [ysgolgyfunbroedern@caerdydd.gov.uk](mailto:ysgolgyfunbroedern@caerdydd.gov.uk)



*Band 'Hunllef' yn Tafwyl*

**Data Presenoldeb Ysgol 2025-26 hyd at mis Mai(1/9/25 tan 31/05/26)**
*(Ffigurau 2024/25 mewn cromfachau)*

| | Presenoldeb % 2025-26 | (% 2024-25) | Absenoldeb awdurdodedig % 2025-26 | Absenoldeb anawdurdodedig % 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 90.63 | *(93.69)* | 5.12 | 4.25 |
| Blwyddyn 8 | 91.62 | *(92.42)* | 5.31 | 3.06 |
| Blwyddyn 9 | 90.05 | *(90.56)* | 6.47 | 3.48 |
| Blwyddyn 10 | 89.72 | *(90.43)* | 6.03 | 4.25 |
| Blwyddyn 11 | 85.32 | *(90.08)* | 7.05 | 7.64 |
| **Cyfanswm:** | **89.47** | *(91.44)* | 6.68 | 4.54 |

Mae'r tîm presenoldeb wedi ehangu eleni i gynnwys swyddog ymgysylltu teuluoedd, Ms Eleri Mai Thomas, ynghyd â'n Swyddog Presenoldeb, Miss Bethan Stewart. Gyda'i gilydd maent wedi mireinio prosesau ysgol i olrhain a thracio presenoldeb yn fwy drylwyr a chynyddu cyswllt diwrnod cyntaf i leihau absenoldebau parhaus. Gyda chyfnod o'r Ap *Classcharts* yn dod i ben rydym wedi bod yn gweithio'n galed i baratoi yr Ap newydd, *Arbor*, lle bydd cyfathrebu rheolaidd gyda rhieni am bresenoldeb yn fuan. Fe wnaethom sefydlu system o gyswllt diwrnod cyntaf rhag ofn y byddwn yn absennol heb awdurdod. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu codau presenoldeb a phresenoldeb CBS Caerdydd sy'n ceisio lleihau absenoldebau a hyrwyddo canrannau uchel o bresenoldeb.

**Hyfforddiant mewn swydd i athrawon 2025 - 26**

Cynhaliwyd canllawiau Llywodraeth Cymru 6 diwrnod HMS yn ystod 2025/26. Yn y tabl isod, rydym yn rhestru'r hyfforddiant a gynigir a'r prif feysydd ffocws a datblygiad.

| **Dyddiad** | **Thema / ffocws** | **Darparwr** |
|---|---|---|
| 1 Medi 2025 | Paratoi a chynllunio y flwyddyn ysgol<br>Hyfforddiant Blynyddol Amddiffyn Plant<br>Cynllun Gwella yr Ysgol: Dysgu sy'n Canolbwyntio ar y Disgybl<br>Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein cwricwlwm | Ysgol |
| 3 Hydref 2025 | Cynllun Gwella Ysgol: Addysgu a Dysgu<br>Siarad a Gwrando effeithiol<br>Gweithdai arfer dda o ran datblygu hyder a chyfranogiad disgyblion drwy dasgau tanio a strategaethau *Ein Llais Ni*<br>Gweithdai adrannol ar fwydo geirfa arbenigol a dyfnhau ymatebion disgyblion. | Ysgol / Gweithgor Llais 21 |
| 20 Tachwedd 2025 | Cynllun Gwella Ysgol: Addysgu a Dysgu<br>Asesu a Dysgu : hyfforddiant ar tracio a monitro cynnydd<br>Sgoriau darllen safonedig a datblygu Tasgau Her Uchel | Ysgol |
| 5 Ionawr 2026 | Cynllun Gwella Ysgol: Addysgu a Dysgu<br>Ymddygiad Cadarnhaol a pherthnasoedd<br>Walkthrus fel dull o ymateb i ymddygiad<br>Camau gweithredu sancsiwn yr ysgol<br>Protocolau Clod a Chanmol | Ysgol |
| 27 Mawrth 2026 | HMS CBAC / CYDAG De Cymru | CYDAG: (pob ysgol cyfrwng |

| | | |
|---|---|---|
| | Hyfforddiant ganolog yn maes datblygu cymwysterau newydd ar gyfer CA4 (ton 1 a ton 2)<br>Gweithdai i adranau ar rannu arferion da mewn addysgu a dysgu<br>Gweithdai a gyflwynwyd gan ysgolion gwahanol yn canolbwyntio ar waith datblygu cymwysterau o fewn pob pwnc | Cymraeg De Cymru) |
| 19 Mehefin 2026 | HMS Clwstwr Bro Edern<br>Hyffordiant arbenigol yn maes ADY;<br>Mewnbwn a gweithdai arfer dda gan dim arbenigol ADY y sir yn maes addysgeg, lles, ymddygiad a cymorth llythrennedd<br>Gweithdai rhannu arfer dda gan CADY pob ysgol clwstwr | Tim arbenigol ADY Caerdydd |
| 20 Gorffennaf 2026 | Hyfforddiant Adran ar Gymwysterau newydd (Ton 1 a 2) | Ysgol / Adran |

Mae canran da o'n staff hefyd yn gweithio fel arholwyr ar gyfer CBAC (Corff Arholi Cymru) ac o'r herwydd, maent wedi bod yn rhan o gyrsiau hyfforddi ac asesiadau ar safon TGAU, UG a Safon Uwch. Drwy'r gwaith hwn maent yn derbyn hyfforddiant sgiliau arbenigol ym maes asesu cenedlaethol ac yn aml iawn gallant rannu eu profiadau a'u harbenigedd gyda staff ehangach yr ysgol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar eu dealltwriaeth o faes asesu cenedlaethol ac felly'n cael effaith ar eu sgiliau addysgu. Gan ein bod yn deall gwerth y gwaith hwn i gymuned yr ysgol, rydym yn awyddus i gefnogi staff i ymgymryd â gwaith o'r fath lle bo hynny'n bosibl a lle nad yw'n gwrthdaro â blaenoriaethau'r ysgol.

**Os ydych am ymateb i'r adroddiad**

Gan ddilyn canllawiau newydd Llywodraeth Cymru , nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer rhieni gyda'r Corff Llywodraethol, oni bai bod 5% neu fwy o gais y rhieni am gyfarfod o'r fath. Mewn achos o'r fath, byddwn yn galw cyfarfod cyn gynted â phosibl ac yn rhoi gwybod i rieni am y dyddiad. Os ydych yn dymuno gwneud cais o'r fath, yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'r Pennaeth, neu Gadeirydd y Llywodraethwyr.

**Cysylltwch â ni:** Gallwch gysylltu â'r ysgol drwy:

Ffôn: 029 20 489 445
E-bost: ysgolgyfunbroedern@caerdydd.gov.uk
Gwefan: https://broedern.cymru/

Os hoffech gael copi o galendr yr ysgol neu'r prosbectws diweddaraf, cysylltwch â'r Brif Swyddfa ar 029 20 489 445.

Ysgol Gyfun Gymraeg yng Nghyngor Dinas Caerdydd a Bwrdeistref Sirol yw Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern. Cynigir y cwricwlwm drwy'r ysgol yn gyfan gwbl yn y Gymraeg yn CA3, CA4 ac yn CA5.

**Atodiadau Cyffredinol**

Atodiad A: Cyrchfan y rhai sy'n gadael yr ysgol Hydref 2025

Atodiad B: Cymorth ADY

Atodiad C: Dyddiadau tymhorau'r ysgol 2026/2027

Atodiad D: Cyllideb yr Ysgol: Y ffigurau ariannol terfynol ar gyfer 2025-26






*Dawns Ffarwel Bl 11, Mehefin 2026*

## Atodiad A: Cyrchfannau Ymadawyr Ysgol: Hydref 2025

| **Grŵp Blwyddyn Hydref 2025** | **Blwyddyn 11** | | |
|---|---|---|---|
| rhyw | Benyw | Gwryw | **Cyfanswm** |
| Categori Cyrchfan | Cyfanswm | Cyfanswm | **Cyfanswm** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - yr un ysgol | 30 | 31 | **61** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - Ysgol | 4 | 2 | **6** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - Coleg | 42 | 28 | **70** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - AU | 0 | 0 | **0** |
| Parhau mewn addysg ran-amser | 0 | 0 | **0** |
| Mynd i gyflogaeth y tu allan i WBTYP | 0 | 1 | **1** |
| Mynd i mewn i WBTYP (statws cyflogedig) | 0 | 1 | **1** |
| Mynd i mewn i WBTYP - (heb statws cyflogedig) | 2 | 1 | **3** |
| Yn gallu mynd i mewn i Emp, Ed neu WBTYP (Di-waith) | 1 | 1 | **2** |
| Methu NEU DDIM YN BAROD i fynd i mewn i Emp, Ed neu WBTYP (e.e. oherwydd salwch, dedfryd o garchar) | 1 | 1 | **2** |
| Ddim yn ymateb i ddilyn i fyny ac felly yn anhysbys | 2 | 5 | **7** |
| **Cyfanswm** | **82** | **71** | **153** |

| **Grŵp Blwyddyn Hydref 2025** | **Blwyddyn 13** | | |
|---|---|---|---|
| rhyw | Benyw | Gwryw | **Cyfanswm** |
| Categori Cyrchfan | Cyfanswm | Cyfanswm | **Cyfanswm** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - yr un ysgol | 1 | 0 | **1** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - Ysgol | 0 | 0 | **0** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - Coleg | 3 | 0 | **3** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - AU | 17 | 19 | **36** |
| Parhau mewn addysg ran-amser | 0 | 1 | **1** |
| Mynd i gyflogaeth y tu allan i WBTYP | 2 | 0 | **2** |
| Mynd i mewn i WBTYP (statws cyflogedig) | 0 | 0 | **0** |
| Mynd i mewn i WBTYP - (heb statws cyflogedig) | 0 | 0 | **0** |
| Yn gallu mynd i mewn i Emp, Ed neu WBTYP (Di-waith) | 0 | 0 | **0** |
| Methu NEU DDIM YN BAROD i fynd i mewn i Emp, Ed neu WBTYP (e.e. oherwydd salwch, dedfryd o garchar) | 0 | 1 | **1** |
| Ddim yn ymateb i ddilyn i fyny ac felly yn anhysbys | 3 | 2 | **5** |
| I'w ddiweddaru | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **26** | **23** | **49** |



*Tim XV Bl 11: Pencampwyr Sir yn 2024, 2025 a 2026*

**Atodiad B: Adroddiad Blynyddol ADY i'r Corff Llywodraethu Mehefin 2026**

Dyma drosolwg o nifer y dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws yr ysgol. Mae pob un o'n dysgwyr sydd ag ADY yn cael ei gefnogi drwy Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Ar hyn o bryd, mae 42 CDU, 41 CDU yn cael eu cynnal gan yr ysgol ac un gan yr Awdurdod Lleol.

| | CDU Ysgol | CDU AALl |
|---|---|---|
| Bl 7 | 7 | |
| Bl 8 | 7 | |
| Bl 9 | 10 | |
| Bl 10 | 6 | 1 |
| Bl 11 | 9 | |
| Bl 12 | 1 | |
| Bl 13 | 1 | |
| Cyfanswm (42) | 41 | 1 |

Staffio

- Mrs Meriel Powell (CADY) ac Asesydd Trefniadau Mynediad JCQ
- Miss Megan Griffiths Uwch CCD Hafan a'r Cwtsh
- 4 CCD's llawn amser
- 3 CCD drwy asiantaeth

Datblygiad ers Medi 2025

- Ers Medi 2025 mae nifer y disgyblion sydd â CDU wedi cynyddu o 28 ym Medi 2025 i 42 ym Mehein 2026. Golyga hyn gynnydd o 50% mewn llai na blwyddyn.
- Mae cyfarfodydd ADY i staff yn cael eu cynnal bob tair wythnos er mwyn diweddaru staff am anghenion penodol a rhannu arfer dda.
- Ers mis Ionawr mae Miss Heledd Owen wedi ymuno â ni yn yr Adran ADY am 2.5 diwrnod yr wythnos fel Swyddog Lles a Chynhwysiant er mwyn gweithio gyda'n disgyblion bregus (ABSA - Anxiety Based School Avoidance)
- Mae hyfforddiant ysgol gyfan yn cael ei ddarparu ar gynhyrchu proffiliau un dudalen a'u pwysigrwydd i sicrhau bod anghenion pob disgybl ADY yn cael ei ddiwallu ym mhob gwers gan bob athro.
- Arbrofi ac ymgorffori'r defnydd o Arbor er mwyn rhannu gwybodaeth angenrheidiol gyda'r staff ee adroddiadau gan y Sir, CDU, Proffil Un Dudalen, defnydd o gerdyn Saib, diagnosis penodol ayyb.
- Datblygu system newydd ar Arbor a'r Gyrrwr Athrawon i gymryd lle y pecyn Edukey cynhwysfawr i gasglu gwybodaeth ac adborth gan athrawon am y disgyblion o dan ofal yr Adran ADY.
- Parhau i ddatblygu a mireinio cynlluniau ymyraethau ar gyfer ein disgyblion ee llythrennedd, rhifedd, Llawysgrifen, Teipio, Talkabout, Tree of Life, ELSA, Therapi Celf, Ffitrwydd, Coginio, Nessy, prosiect ffotograffiaeth ayyb.
- Parhau i ddatblygu dull ysgol gyfan tuag at y Ddeddf ADY – hyrwyddo arferion sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion o fewn Darpariaeth Gyffredinol yr ysgol gyfan drwy sicrhau dysgu as addysgu o ansawdd uchel.

- Datblygu'r ddarpariaeth lles drwy gyflwyno ci therapi (Cosmo) i weithio gyda disgyblion pryderus o Fedi 2026 ymlaen.
- Cydlynu a threfnu diwrnod HMS Clwstwr ADY ym mis Mehefin 2026, gyda sesiynau amrywiol yn cael eu cyflwyno gan arbenigwyr o'r Awdurdod i ddatblygu strategaethau traws Ysgol a’r Clwstwr er mwyn hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion tra'n sicrhau bod arferion dysgu ac addysgu o ansawdd uchel yn cael eu defnyddio.
- Bore Coffi ADY wedi ei drefnu ar gyfer Gorffennaf 2026 er mwyn rhannu gwybodaeth gyda rhieni.

<u>Camau Nesaf</u>

- Newidiadau staffio ym mis Medi – Dirprwy CADY newydd wedi ei benodi, Mr Sam Grosvenor. Mae ail hysbyseb ar hyn o bryd ar gyfer swydd Uwch Gynorthwy-ydd Dysgu i redeg y Cwtch Bach oherwydd bod Mrs Alice Woods wedi cael dyrchafiad..
- Parhau i ddatblygu ymyraethau llythrennedd a rhifedd, wedi'u targedu at anghenion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Datblygu system dracio a monitro disgyblion gan ddefnyddio Arbor am y tro cyntaf.
- Sicrhau bod gwybodaeth holl ddisgyblion ADY yn cael ei rannu ac yn amlwg a chlir ar system *Arbor* er mwyn diweddaru staff a darparu'r cymorth sydd ei angen ar lefel gyffredinol.
- Parhau i weithio gyda’r Swyddog Lles a Chynhwysiant, y Secolegydd Addysg a’r Tîm Presenoldeb o fewn i Sir er mwyn cefnogi ein disgyblion pryderus (ABSA – Anxiety Based School Avoidance) i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd yn y gymuned, ar lein ac yn yr Hafan i’r disgyblion a’u rhieni.
- Arbrofi gyda meddalwedd darllenydd cyfrifiadurol ar gyfer arholiadau mewnol ac allanol Blwyddyn 10 - 13 yn hytrach na defnyddio staff fel darllenwyr mewn arholiadau.



*Darpariaeth yr Hafan a'r Cwtsh, Bro Edern*

## Atodiad C: Tymhorau a Gwyliau Ysgol Blwyddyn Academaidd 2026/2027

| Dyddiad | Dechrau Tymor | Gwyliau Hanner Tymor | | Diwedd Tymor | Dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cychwyn | Diwedd | | |
| Hydref 2026 | 1 Medi 2026 | 26 Hydref | 30 Hydref | 18 Rhagfyr 2026 | **75** |
| Gwanwyn 2027 | 4 Ionawr 2027 | 8 Chwefror | 12 Chwefror | 19 Mawrth 2027 | **65** |
| Haf 2027 | 5 Ebrill 2027 | 31 Mai | 4 Mehefin | 20 Gorffennaf 2027 | **55** |
| **Cyfanswm:** | | | | | **195** |

Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar gyfer **HMS** am **6 diwrnod** rhwng dydd Mawrth 1 Medi 2026 a 20 Gorffennaf 2027. Mae'r dyddiadau hyn wedi'u rhestru isod:

**Diwrnodau HMS 2026/27**

01/09/26
16/10/26
04/01/27
15/02/27
19/07/27
20/07/27

**Gwyliau Banc**

Dydd Gwener y Groglith, 26 Ebrill 2027
Dydd Llun y Pasg, 29 Ebrill 2027
Dydd Mai, 3 Mai 2027
Gŵyl Banc y Gwanwyn, 31 Mai 2027

Mae copi o galendr yr ysgol ar gael i rieni yn flynyddol o fis Medi neu drwy brif swyddfa'r ysgol ar 029 20 489 445




*Perfformio yn Tafwyl, 2026*

**Atodiad D: Cyllideb Ysgol 2025-26**

**Cyngor Sir Caerdydd/Cardiff County Council**
**Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern 2025-26**
**Cyllideb a Gymeradwywyd gan Lywodraethwyr/Alldro Gwariant**

| | Cyllideb £'s | | Alldro Gwariant £'s | |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | - | - | | |
| Staff Addysgu Llawn Amser | 4,795,951 | | 4,786,639 | |
| Cynorthwywyr Addysgu | 415,640 | | 339,637 | |
| Staff Gweinyddol | 215,526 | | 180,769 | |
| Cynorthwyydd Ieithoedd Tramor | 6,383 | | 9,213 | |
| Costau Cyflenwi (Byr Rhybudd) | 73,086 | | 68,970 | |
| Staff Asiantaeth - Addysgu | 104,700 | | 57,019 | |
| Staff Asiantaeth - Cynorthwywyr/Gweinyddol | 78,190 | | 121,874 | |
| Swyddogion Presenoldeb | 46,972 | | 59,475 | |
| Technegwyr | 65,226 | | 62,956 | |
| Goruchwylwyr Canol Dydd | 24,786 | | 19,110 | |
| Gofalwyr | 89,404 | | 93,250 | |
| Glanhawyr | 103,786 | | 111,092 | |
| Costau Staff Eraill | 93,796 | | 43,569 | |
| **Cyfanswm Costau Staff** | | 6,113,446 | | 5,953,572 |
| **Costau Adeiladau** | | | | |
| Mân Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw sydd yn cynnwys tiroedd | 36,283 | | 32,871 | |
| FM & Mân Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw | 31,733 | | 12,917 | |
| Costau Ynni | 150,200 | | 115,949 | |
| Cyfraddau (Wedi'u Clustnodi) | 91,044 | | 91,044 | |
| Taliadau Dŵr | 3,500 | | 2,036 | |
| Sbwriel + Deiliad Allwedd | 12,380 | | 11,078 | |
| **Cyfanswm Costau Adeiladau** | | 325,140 | | 265,895 |
| **Cludiant a Gwasanaethau** | | | | |
| Costau Cysylltiedig â Chludiant | 116,040 | | 97,326 | |
| **Cyfanswm Costau Cludiant** | | 116,040 | | 97,326 |
| **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | | | | |
| Dodrefn | 6,000 | | 6,587 | |
| Adnoddau Addysgu | 73,000 | | 89,377 | |
| 14-19 Cwricwlwm Amgen | 65,000 | | 59,117 | |
| Gêmau a Gweithgareddau | 7,500 | | 8,964 | |
| Yswiriant | 8,000 | | 9,345 | |
| Costau Arlwyo/Prydau Staff sydd ar Ddyletswydd | 8,000 | | 2,115 | |
| Costau Cyffredinol/Deunyddiau Ysgrifennu | 8,000 | | (3,142) | |
| Ffioedd Arholiadau | 130,000 | | 56,735 | |
| Gwasanaethau Cyfathrebu | 5,900 | | 8,652 | |
| Gwasanaethau Cyfrifiadurol | 89,112 | | 97,445 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cyffredinol | 3,500 | | 4,052 | |
| Costau Clerc y Llywodraethwyr | 1,320 | | 0 | |
| Addysg oddi ar y Safle | 35,000 | | 52,219 | |
| Costau darpariaeth gwasanaeth y Sir e.e. Adnoddau Dynol | 116,986 | | 125,322 | |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau** | | 557,318 | | 516,789 |
| | | | | |
| **Gwariant GROS** | | **7,233,841** | | **6,971,978** |
| **Incwm i mewn i'r ysgol:** | | | | |
| Incwm Ysgol | (29,750) | | (147,113) | |
| Incwm o'r Sir | (661,402) | | (861,617) | |
| Ad-daliad o'r Gronfa Cyflenwi/Mamolaeth | 0 | | (55,034) | |
| **Incwm GROS** | | **(691,152)** | | **(1,063,765)** |
| **Gwariant NET** | | **6,542,689** | | **5,908,213** |
| **Alldro disgwyliedig** | | (820,846) | | (186,369) |



*Tim Athletau Bro Edern, Haf 2026*